

Cymdeithas Gwasanaethau

Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.1 Datblygu strategaeth codi arian



Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth hon yn cynnig trosolwg ar yr hyn y dylech ei ystyried a'i wneud er mwyn dyfeisio strategaeth i godi arian ar gyfer eich mudiad gwirfoddol.

Pa le sydd i waith codi arian yn eich mudiad?

Mae'r rhan fwyaf o fudiadau gwirfoddol yn dibynnu am eu bodolaeth ar waith codi arian o ryw fath. Mae rhai grwpiau'n cael mai codi arian yw eu prif weithgarwch, tra bydd prosiectau eraill sydd â sicrwydd o grant am dair blynedd yn ei gadael tan y tri neu bedwar mis olaf cyn chwilio am gyllid i barhau. Mae'n hanfodol cael y cydbwysedd iawn rhwng darparu gwasanaethau a gwaith codi arian ac mae'n bwysig sicrhau bod strategaeth codi arian gan eich mudiad, a bod blaenoriaeth uchel iddi yn eich cynlluniau tymor hir, ac yng ngwaith arferol eich pwyllgor gwaith a'ch gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Er mwyn cael y cydbwysedd cywir, rhaid dechrau drwy gymryd cyfrifoldeb dros yr hyn yr ydych yn ceisio'i wneud, a deall pam a sut. Pwy sy'n gyfrifol? Yn y pen draw, mae'r cyfrifoldeb dros waith codi arian effeithiol yn perthyn i aelodau'r Bwrdd ymddiriedolwyr neu reolwyr y pwyllgor gwaith.

Efallai'ch bod yn cyflogi staff i godi arian neu'n dirprwyo'r gwaith hwnnw i wirfoddolwyr penodol. Ond dyletswydd y pwyllgor yw sicrhau bod gan y mudiad yr adnoddau y mae arno'u hangen i gyflawni ei nodau a'i amcanion. Mae hyn yn gyfrifoldeb cyfreithiol i unigolion sy'n rhedeg elusen neu gwmni cyfyngedig, ond mae'r rhwymedigaeth hon yn berthnasol i holl aelodau'r pwyllgor mewn mudiadau gwirfoddol a chymunedol.

Adnabod eich mudiad

Yr unig ffordd i fod yn gyfrifol (a gallu rheoli) yw gwybod beth sy'n mynd ymlaen. Felly cyn dechrau cynllunio'ch gwaith codi arian, dylai aelodau'r pwyllgor dreulio amser yn trafod, ac yn ateb, rhai cwestiynau sylfaenol:

- A ydym i gyd yn gyfarwydd â nodau ac amcanion y mudiad (yn enwedig y rhai yn y cyfansoddiad)?
- O ble rydym yn cael ein harian yn awr?
- Pam y mae angen inni godi arian?
- Beth a ddigwyddai i'r gwaith yr ydym yn ei wneud petai'r mudiad yn peidio â bod?
- Beth sy'n arbennig ac yn wahanol am ein gwaith?

- A oes unrhyw ffynonellau ariannol neu fathau o waith codi arian sydd heb eu caniatáu dan ein rheolau (e.e. loteriau a bingo) neu gan y Comisiwn Elusennau?
- Ai masnachu yw ein gwaith codi arian mewn gwirionedd, ac a ydym yn cael masnachu?
- A ydym yn cadw cyfrifon iawn ac yn cadw ein harian yn ddiogel, yn enwedig arian parod ac incwm o apelau arbennig?
- A oes gennym gynllun tymor hir sy'n cynnwys gwaith codi arian?

Paratoi i godi arian

Y cwbl yw **'cynllun strategol'** yw ffordd dechnegol o ddweud 'beth rydych am ei wneud dros y blynyddoedd nesaf, a pha adnoddau y bydd eu hangen i'w gyflawni'. Braidd yn rhy hawdd yw rhuthro o gwmpas yn ceisio codi arian heb fod â syniad clir o'r defnydd y byddwch yn ei wneud ohono. Bydd arnoch angen arian bob amser, wrth gwrs, ond beth mae'ch mudiad am ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf? Pa weithgareddau newydd yr hoffech ymgymryd â nhw neu eu hosgoi? Efallai y bydd y syniad o lunio 'cynllun strategol' yn codi braw arnoch chi, os ydych yn ei gweld yn anodd para tan ddiwedd y flwyddyn hyd yn oed. Ond efallai mai'r union ateb i'ch problemau fyddai camu'n ôl o'r argyfyngau o ddydd i ddydd ac edrych o'r newydd ar heriau a chyfleoedd eich gwaith.

Targedu'ch ymdrechion

Er mwyn bod yn effeithiol yn eich gwaith, rhaid ichi wybod:

- beth rydych am ei gyflawni drwy godi arian, a

- sut byddwch yn rheoli'r gwaith codi arian.

Nid mater o gael arian o rywle rywle i wneud rhywbeth neu'i gilydd yw codi arian. Dylech dargedu'ch ymdrechion er mwyn bodloni'ch anghenion yn unol â'ch gallu i godi arian, a'i wario'n effeithiol. Dylech ddefnyddio gwahanol dactegau a dethol gwahanol dargedau, nid yn unig ar sail y swm o arian yr ydych yn credu bod arnoch ei angen, ond hefyd yn ôl yr anghenion mwyaf sydd gennych, sut rydych am weld y mudiad yn datblygu, yr amser sydd gennych ar gyfer y gwaith, sgiliau'ch staff a'ch gwirfoddolwyr, a sut rydych yn rhagweld y bydd y mudiad yn para yn y tymor hir.

Amser i ddechrau cynllunio

Mae llawer iawn o wahanol ddulliau o godi arian ar gael – yn cynnwys ffynonellau ariannu llywodraeth ac ymddiriedolaethau elusennol yn ogystal ag apelau cyhoeddus a ffeiriau sborion (mae mwy o fanylion am y rhain mewn Taflenni Gwybodaeth eraill yn y gyfres hon). Ond efallai y byddwch am ddilyn dau neu dri o amcanion (cael arian ar gyfer eich gweithgareddau 'craidd', er enghraifft, neu ar gyfer adeilad newydd), ac ystyried sawl gwahanol ddull o godi arian ar gyfer pob un. Mae'n amlwg y bydd gwaith cynllunio manwl a thrwyadl yn eich paratoi'n well i wynebu'r dasg gymhleth hon.

Mewn gwirionedd, drwy gynllunio'n systematig, ac edrych ar eich holl anghenion gyda'i gilydd ac ar fanylion y gwaith y bydd angen ei wneud, bydd gennych well cyfle i lwyddo wrth godi arian.

Ysgrifennu 'cynllun codi arian'

Y man cychwyn ar gyfer codi arian yw paratoi cynllun codi arian. Yn wahanol i'r cynllun strategol, rhaid i'r cynllun codi arian fod yn ddogfen hollol ymarferol y byddwch yn cyfeirio ati o'r naill wythnos i'r llall ac yn ei defnyddio i fesur eich cynnydd. Dylai ymdrin â:

- Phwrpas y gwaith codi arian.
- Y gwahanol fathau o waith codi arian y byddwch yn ymgymryd â nhw.
- Y cyrff a mudiadau y byddwch yn gallu cysylltu â nhw i gael grantiau.
- Blaenoriaethau ar gyfer gwaith codi arian.
- Amserlen a thargedau, gan gynnwys dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau.
- Pwy fydd yn gyfrifol am beth – a phwy sy'n gyfrifol am roi'r cynllun ar waith.

Trefnu da ac ymarfer da

Ar ôl cael y cynllun, rhaid paratoi'r mudiad i ddechrau mynd i'r afael â'r gweithgareddau codi arian yr ydych wedi'u dewis. Rhaid ichi ystyried materion fel:

- Ymchwil ar ffynonellau ariannu a thactegau codi arian.
- Casglu gwybodaeth i'ch helpu i ddadlau'ch achos dros gael grantiau.
- Sicrhau'ch bod yn gallu talu costau'r gweithgareddau codi arian.
- Cynllunio'r prosiect yr ydych yn codi arian ar ei gyfer
- Cyllidebu i weld faint yn union o arian y bydd angen ichi ei godi.
- Pennu targedau codi arian.
- Creu cyfleoedd i gynnwys gwirfoddolwyr.
- Rhwydweithio er mwyn rhannu gwybodaeth â mudiadau eraill tebyg.

- Creu gweithdrefnau i drin rhoddwyr yn iawn.

Cael effaith

Beth bynnag yw'r ffynhonnell ariannu, dylech gymryd eich bod dan ddyletswydd i gyflwyno'r ddadl orau posibl i ddarbwylllo cyrff ariannu neu roddwyr i roi eu harian i chi.

Bydd y modd yr ydych yn cyflwyno'ch mudiad iddynt yn dibynnu ar y math o gyllid yr ydych yn ceisio ei sicrhau.

Dyma rai cyngorion cyffredinol:

Y cynllun busnes a cheisiadau am grantiau

Efallai na fydd rhai'n hoffi hynny, ond bydd 'cynllun busnes' neu 'gynllun datblygu' yn rhan hollbwysig o'r cais am grant mewn llawer achos, hyd yn oed os na ofynnir am un. Er hynny, nid oes raid iddo fod yn waith anodd. Heddiw, byddai unrhyw gais am grant sylweddol (ychydig o filoedd o bunnoedd neu fwy) yn cael ei gyflwyno fel arfer gyda dogfen sy'n disgrifio:

- Sut rydych yn gwybod bod angen amdano.
- Sut byddwch yn gwario'r arian.
- Pa effaith a gaiff ar eich mudiad.
- Pa wahaniaeth a wnaiff i'r rhai yr ydych yn ceisio eu helpu (canlyniadau).
- Sut byddwch yn cyllidebu'ch incwm a'ch gwariant yn ystod y cyfnod ariannu (ac ar ôl hynny hefyd, os oes modd nodi hynny).
- Amserlen gyda dyddiadau targed.
- Sut byddwch yn monitro effaith yr ariannu.

Delwedd gyhoeddus dda

Prin bod angen dweud y bydd gennych well cyfle os bydd gennych ddelwedd dda yng ngolwg cyrff ariannu a rhoddwyr – ond mae'r gwrthwyneb i hynny'n wir ac yn bwysicach ei gydnabod. Os nad oes neb wedi clywed sôn am ryw elusen, mae'n debygol iawn (yn gam neu'n gymwys) y bydd yn cael ei hystyried yn un nad yw'n cyflawni fawr ddim

Mynd am grantiau

Er nad yw hyn yn wir am bob corff ariannu, fel arfer dylech gymryd â phinsiad o halen unrhyw gyngor sy'n awgrymu na fydd prinder adnoddau a sgiliau ar gyfer cynhyrchu ceisiadau grant da yn eich rhoi dan anfantais. Mae ansawdd eich cais a'r dull o'i gyflwyno yn bwysig oherwydd, yn ymarferol, anodd iawn yw gwahaniaethu rhwng y cynnwys a'r dull o'i gyflawni. Drwy ddefnyddio ychydig o dactegau syml, bydd gennych gyfle gwell o lawer i llwyddo; ceir mwy o fanylion am y pwnc hwn mewn Taflenni Gwybodaeth eraill yn y gyfres hon. Ceisiwch gael cymorth i wneud ceisiadau os ydych yn teimlo bod angen hynny.

Ac os byddwch yn llwyddo?

Mae llawer o ymdrechion i godi arian, yn enwedig y gwaith o gynllunio prosiectau a pharatoi ceisiadau grant, yn digwydd

yng nghanol teimladau o obaith, dyhead ac antur hyd yn oed, ymhell o ystyriaethau o faterion pob dydd.

Nid yw'n syndod, felly, y bydd pobl yn aml yn methu ag ystyried beth fydd yn rhaid iddynt ei wneud os bydd eu hymdrechion i godi arian yn llwyddo. Dyna pam y mae'n hollbwysig i chi:

- Ddweud y gwir yn eich ceisiadau grant.
- Gwerthuso'n fanwl yr effaith a gaiff prosiectau sy'n cael cymorth grant ar eich mudiad chi.
- Cynnwys trefniadau monitro yn eich ceisiadau grant.

Mwy o wybodaeth

Bydd WCVA a'r cynghorau gwirfoddol sirol lleol yn rhedeg cyrsiau o bryd i'w gilydd ar ganfod arian a'i sicrhau. Mae cyrsiau o'r fath yn cynnig modd i fudiadau adolygu eu ffrydiau incwm ac ystyried dulliau ariannu eraill. Os ydych yn fudiad cenedlaethol neu ranbarthol, cysylltwch â WCVA. Dylai mudiadau lleol gysylltu â'r cyngor gwirfoddol sirol.

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig 1063289

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 05/01/2010



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk